# TASG: PERTHYN

HAIA TI! TI EISIAU SIARAD? DWI YMA I HELPU TI'N GW'BOD!

TREULIA YCHYDIG O FUNUDAU'N MEDDWL AM Y BOBL HYNNY YN DY FYWYD MAE GEN TI BERTHYNAS WERTHFAWR Â NHW. GALLAN NHW FOD YN AELODAU O DY DEULU, YN FFRINDIAU, YN ATHRAWON NEU'N AELOD O GLWB RWYT TI'N PERTHYN IDDO. LLENWA'R CYLCH PERTHYN GAN DDECHRAU GYDA'R BOBL HYNNY MAE GEN TI BERTHYNAS AGOS IAWN GYDA NHW. MAE'N SIŴR BOD GEN TI LAWER O RESYMAU PAM FOD Y BOBL YMA'N BWYSIG I TI!



TRAFODA DY GYLCH PERTHYN GYDA PHARTNER GAN EGLURO'R BERTHYNAS SYDD GEN TI GYDA PHOB PERSON YN Y CYLCH.

BETH AM OFYN Y CWESTIYNAU YMA I DY BARTNER:

**1. WYT TI'N GALLU MEDDWL AM ADEG PAN DEIMLAIST WEDI DY GARU GAN BERSON YN Y CYLCH?**

**2. WYT TI'N GALLU COFIO ADEG PAN DEIMLAIST WEDI DY AMDDIFFYN GAN BERSON YN Y CYLCH?**

CYFNEWIDIWCH! NAWR MAE'N GYFLE I'R PERSON OEDD YN GOFYN Y CWESTIYNAU I ATEB Y CWESTIYNAU YMA GAN EI BARTNER:

**1. WYT TI'N GALLU MEDDWL AM ADEG PAN DDANGOSAIST DI DY GARIAD AT BERSON YN Y CYLCH?**

**2. WYT TI'N GALLU COFIO ADEG PAN WNEST TI AMDDIFFYN PERSON YN Y CYLCH?**

WYT TI OFN BOD AR BEN DY HUN? BYTH! EDRYCHA AR DY GYLCH PERTHYN!

COFIA - MAE PAWB YMA I TI OS WYT TI ISIE SIARAD, OK?